

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 3ydd 2015 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gethin Morris (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Tina Davies, Alwyn Roberts, Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Pritchard, Eifion Davies a Gwenda Evans.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Gary Thomas ei fuddiant yng nghais cynllunio Pencefn, Sarnau a gadawodd yr ystafell pan drafodwyd y cais.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Wal gynnal mynwent Llanfor.

Yn dilyn yr asesiad o'r wal gynnal, derbyniwyd adroddiad yn cadarnhau nad oedd y wal yn peri gofid i'r cyhoedd. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau am ychwanegu waliau a ffensys a oedd o dan berchnogaeth y Cyngor i'r polisi yswiriant.

Mynwent Frongoch.

Cafwyd cadarnhad gan y clerc bod y coed wedi cael eu torri a'r waliau wedi cael eu hail godi. Roedd y gwaith papur priodol wedi cael ei ddychwelyd i Gyngor Gwynedd ac roedd yr arian grant ar ei ffordd i'r Cyngor.

Cydweithio gyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn i drafod materion y mynwentydd.

Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Llanuwchllyn eu bod wedi symud ymlaen ac wedi cytuno ar ffioedd newydd a chanllawiau ar gyfer eu mynwentydd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i adael trefniadau mynwentydd y Cyngor fel y maent ar hyn o bryd ac ail asesu'r sefyllfa mewn blwyddyn.

Gwefan Cyngorau Penllyn.

Cafwyd cadarnhad gan y clerc bod y wefan wedi cael ei chwblhau ac roedd y gwaith papur perthnasol wedi cael ei anfon ymlaen i Gyngor Gwynedd er mwyn iddynt dalu'r arian tuag at gostau creu'r wefan.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd.

Coed yn gordyfu dros y ffordd ger Dewis Cyfarfod, Llandderfel.

Roedd y Cyngor wedi cysylltu yn nol i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r cwynion ac roeddynt am gysylltu â'r tîrfeddiannwr i drafod y mater.

Yr A494, ger Gors Sarnau.

Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Asiantaeth Cefnffyrdd i bwysleisio bod angen gwneud y gwaith o osod wyneb gwrthlithro ar y ffordd cyn gynted a phosib gan fod ceir yn parhau i lithro i'r gors.

Ffordd y Berwyn.

Ni chafwyd ymateb swyddogol gan y Cyngor ond cafwyd cadarnhad bod y garreg wedi cael ei mharcio i dderbyn sylw.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn / Cwmni Pum Plwy Penllyn

- i) Derbyniwyd braslun o'r hyn a drafodwyd yn eu cyfarfod diwethaf.
- ii) Derbyniwyd copi o'r cytundeb gwasanaethau blynyddol rhwng y Bartneriaeth a Chyngor Gwynedd. Cytunwyd i'w arwyddo.

b) Cyngor Gwynedd.

- i) Derbyniwyd llythyr ynglŷn â threfnu sesiynau hyfforddiant i gynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw sylwadau i'w gynnig felly cytunwyd i drafod y mater pan fydd manylion y cyrsiau yn cael ei gadarnhau.
- ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Ionawr 2015.
- iii) Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori bod yr ymgynghoriad cyhoeddus y 'Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn – y Cynllun Adnau' yn cychwyn ar Chwefror 16eg. Cytunwyd i'w drafod yn bellach yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

c) Un Llais Cymru

- i) Derbyniwyd copi o'r diweddariadau i benodau 'Llywodraethant ac atebolrwydd i gynghorau lleol yng Nghymru'.
- ii) Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â phenodi Cadeirydd ac Aelodau i Fforwm yr Ucheldir.
- iii) Derbyniwyd copi o ymatebion Un Llais Cymru i ymgynghoriadau materion cynllunio cenedlaethol.

ch) Llywodraeth Cymru.

- i) Derbyniwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar y 'Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol'. Cytunwyd i ddarllen yr wybodaeth a'i drafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth.
- ii) Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn ar 'Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'. Cytunwyd i ddarllen yr wybodaeth a'i drafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

d) Amrywiol

- i) Derbyniwyd gwahoddiad i Gynhadledd Mynyddoedd Pawb a gynhelir yng Ngwersyll Glan-Ilyn, 7/2/15.
- ii) Heddlu Gogledd Cymru - Derbyniwyd neges i atgoffa'r cyhoedd bod angen trefnu i adnewyddu eu trwyddedau gwn saethu neu ddryll tanio mewn digon o amser eleni.
- iii) Fforwm Trosedd ac Anrhefn - Derbyniwyd gwahoddiad i'r cyfarfod, 26/02/15 yng Nghanolfan yr Henblas. Cytunodd Alwyn Jones fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

Cais am drwydded eiddo – Gorwelion, Ysgubor Isaf, Y Bala.

C15/0068/04/LL - Trosi adeilad allandy yn uned gwylliau hunan cynhaliol. Pencefn, Sarnau (Gary Thomas wedi gadael yr ystafell).

Materion Ariannol.

Cyllideb a Praesept 2015-16

Cafwyd braslun o'r gyllideb ar gyfer 2015-16 gan y clerc, a chafwyd yn gywir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i beidio codi'r Praesept a'i gadw ar £6,900.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Cyflog y Clerc (Hyd – Rhag)
- ii) Deiniol Davies – agor bedd.
- iii) A G Evans a'i Feibion – agor beddau.
- iv) Brian Evans – gwaith ym mynwent Frongoch.
- v) H G Web Designs – gwefan y Cyngor.

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Llangollen, Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel, Sioe CFFI Cwmtirmynach ac Urdd Gobaith Cymru. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Materion lleol.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

- i) Graeanu ffyrdd - trafodwyd nifer o gwynion a dderbyniwyd am y diffyg graen ar ffyrdd gwledig yr ardal pan fu'n rhewi a bwrw eira yn ddiweddar. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngor i'r safleoedd a enwyd ac yn enwedig y ffyrdd y mae'r tacsis a bysiau ysgol yn eu defnyddio gan roedd pryder am ddiogelwch y plant.
- ii) Casgliad sbwriel ardal Sarnau - nid oedd y lori sbwriel/ail gylchu yn gwagu holl finiau ardal yn rheolaidd. Gofynnwyd a oedd posib atgoffa'r gyrwyr o'r safleoedd a oedd wedi cael eu methu.
- iii) Clirio/agor ffosydd - gofynnwyd i'r clerc hysbysu'r Adran Briffyrdd bod angen clirio'r ffosydd ger Tan y Graig a chroesffordd Cae Corryn, Llandderfel ac wrth gyrion pentref Sarnau i gyfeiriad Caerau gan fod dŵr yn gorlifo drosodd.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Mawrth 3ydd yn Neuadd Bro Derfel am
7.30 y.h.